**LC1281**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Gorchymyn Deddf Addysg 2002

## (Cychwyn Rhif 10 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006

Mae'r Gorchymyn yma yn dwyn i rym, o ran Cymru, ddarpariaethau yn Neddf Addysg 2002 sy’n diwygio darpariaethau yn Neddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 sy’n ymwneud â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Prif effaith y diwygiadau yw galluogi’r Cyngor Addysgu Cyffredinol i wrthod cais am gofrestru os nad yw wedi’i fodloni bod y ceisydd yn addas i fod yn athro neu’n athrawes.

Mae’r Gorchymyn yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Deddfau o dan Reol Sefydlog 24.27(iii) cyn cael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Mai 2006.

## Rheol Sefydlog 11.7

Cafodd y Cynghorwyr Cyfreithiol gyfle i ystyried drafft cynharach o’r Gorchymyn yma. Oherwydd hynny, mae pwyntiau a allai fod wedi bod yn destun adroddiad wedi’u cymryd i ystyriaeth yn y drafft cyfredol a does dim pwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Dim.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 9 Mai 2006